

<p>A</p>	<p><u>Beth yw'r mater sy'n cael ei ystyried fel eitem craffu?</u></p> <p>Mae Gwasanaeth <i>Cyfarpar ac Aelodau Artiffisial Gogledd Cymru – Artificial Limb and Appliance Service (ALAC)</i> yn wasanaeth sy'n cynnig cefnogaeth i bobl anabl i adsefydlu yn eu cymunedau. Mae'r gwasanaeth yn cael ei redeg gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) ac sy'n gweithio'n agos gydag is-gontractwyr a chyflenwyr er mwyn darparu datrysiadau addas i broblemau ac i uchafu potensial defnyddwyr.</p> <p>Cafwyd cysylltiad gan rai aelodau o'r cyhoedd, sefydliadau sy'n cefnogi pobl anabl a Phencampwr Anabledd Cyngor Gwynedd i gwyno am rai agweddau o'r gwasanaeth.</p> <p>Yn dilyn cyflwyno Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd Peter Read i gyfarfod y Cyngor ar 15 Mehefin 2017, fe benderfynwyd bod y Cyngor yn cyfeirio'r cwestiwn o addasrwydd trefniadau darparu cadeiriau olwyn i drigolion Gwynedd i'w ystyried ar gyfer y rhaglen craffu. Bydd yr ymchwiliad yma felly'n edrych ar y gwasanaeth cadeiriau olwyn yn unig ac nid y gwasanaeth yn ehangach.</p>
<p>B</p>	<p><u>Nod yr Ymchwiliad</u></p> <p>Y prif faterion dan ystyriaeth fydd</p> <ul style="list-style-type: none"> - Nifer a difrifoldeb y cwynion am y gwasanaeth cadeiriau olwyn a ddarperir trwy ALAC. - Beth oedd cynnwys ac amserlen ymateb ALAC i'r cwynion? - Faint o dystiolaeth sydd ar fodlonrwydd/anfodlonrwydd defnyddwyr gyda'r gwasanaeth? A oes themâu yn y dystiolaeth/wybodaeth yma? - A ellir tystiolaethu bod yr unigolion sydd yn defnyddio gwasanaethau yn ganolog yn y broses o asesu a darparu cyfarpar addas ac yn cael eu cynorthwyo i fyw eu bywydau yn y ffordd y maent yn dymuno ei fyw? - Ydi'r broses yn 'fit for purpose'?
<p>C</p>	<p><u>Cyd-destun</u></p> <ul style="list-style-type: none"> - Ystyried gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 o safbwynt rhoi'r defnyddiwr gwasanaeth yn ganolog yn y broses asesu a darparu cyfarpar addas. - Ystyried gofynion o safbwynt Llywodraeth Cymru, y Bwrdd Iechyd a threfniadau caffael a chytundebu. - Ystyried Astudiaethau Achos (y da a'r dim cystal) o Wynedd ac o ardaloedd eraill yng ngogledd Cymru.
<p>CH</p>	<p><u>Arfer Da a Gwersi i'w Dysgu</u></p> <ul style="list-style-type: none"> - Ystyried sut mae gwasanaeth tebyg yn cael ei gynnal mewn ardaloedd eraill. - Nodi rhwystrau ac arfer da

D	<p><u>Casglu Tystiolaeth</u></p> <ul style="list-style-type: none"> - <u>Cyngor Gwynedd</u> <ul style="list-style-type: none"> o Mari Wynne Jones, Uwch Reolwr Gwasanaethau Pobl Hŷn ac Anabledd Corff o Ceryl Davies, Uwch Reolwr Anableddau Dysgu o Arweinwyr Ardal - <u>Bwrdd Iechyd</u> <ul style="list-style-type: none"> o Nyrsys Meinwe o Arbenigwyr Meddygol - Llywodraeth Cymru – Swyddog Cytundebu a Monitro - ALAC Gogledd Cymru – Prif Swyddog - ALAC Caerdydd – Prif Swyddog - ALAC Abertawe – Prif Swyddog - Trydydd Sector – holi Mantell Gwynedd am fudiadau perthnasol - Defnyddwyr y Gwasanaeth – Bydd angen ystyried yn ofalus sut y gellid cael adborth defnyddwyr gwasanaeth oherwydd materion cyfrinachedd a diogelu data.
DD	<p><u>Dadansoddiad</u></p> <ul style="list-style-type: none"> - Pwysu a mesur tystiolaeth a gasglwyd gan y rhai a gyfwelwyd
E	<p><u>Llunio'r Adroddiad</u></p> <ul style="list-style-type: none"> - Nodi a thystiolaethu'r prif ganfyddiadau - Nodi argymhellion ar gyfer allbynnau tymor byr - Nodi argymhellion ac allbynnau tymor hwy - Trafod a chytuno'r Adroddiad drafft gydag arweinwyr y gwaith o fewn Cyngor Gwynedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Llywodraeth Cymru - Cyflwyno'r Adroddiad Terfynol drafft i'r Pwyllgor Craffu am sylwadau a chadarnhad - Cyhoeddi'r Adroddiad Terfynol
F	<p><u>Cynllun Gweithredu</u></p> <ul style="list-style-type: none"> - Llunio argymhellion i ystyriaeth y Bwrdd Iechyd a Llywodraeth Cymru, Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Aelod Cabinet Plant a Theuluoedd a gofyn am ymateb i'r argymhellion
FF	<p><u>Tracio Cynnydd</u></p> <ul style="list-style-type: none"> - Yn ddibynnol ar ganlyniadau'r ymchwiliad, os oes argymhellion y gellid diweddarau'r craffwyr arnynt, fe wneir hyn drwy adroddiad cynnydd anffurfiol.
G	<p><u>Amserlen</u> - Chwefror/Mawrth 2018</p>